Sefydliad Cymunedol Cymru

# Arianwyr Cyflog Byw

Mae Sefydliad Cymunedol Cymru yn credu bod gennym ni, fel rhan annatod o drydydd sector Cymru, ran bwysig i'w chwarae wrth hybu economïau lleol, o ystyried y nifer fawr o bobl y mae'n eu cyflogi. Gyda chymaint o hwb i'r economi byddwn yn gweld gwell iechyd, lles a chymunedau cryfach.

Mae'n bwysicach nawr nag erioed o'r blaen ein bod yn sicrhau bod y sefydliadau rydyn ni'n eu hariannu yn talu'r Cyflog Byw i'r holl weithwyr yn hytrach na'r isafswm cyflog. Mae hyn wedi gyrru ein penderfyniad i arwyddo i ddod yn Ariannwr Cyflog Byw.

O hyn ymlaen, bydd Sefydliad Cymunedol Cymru yn ceisio sicrhau bod pob swydd a ariennir yn gyfangwbl neu'n rhannol trwy ein grantiau a'n rhaglenni yn talu'r Cyflog Byw a byddwn yn gofyn y cwestiwn fel rhan o'n proses ymgeisio.

Os na allwch dalu'r Cyflog Byw, byddwn yn gofyn ichi egluro pam a byddwn yn rhoi ystyriaeth i'ch ymateb yn ystod y broses asesu.

I gael mwy o wybodaeth am y Cyflog Byw, cliciwch yma.

We are a Living Wage Funder